



WYTHNOS YR YMDDIRIEDOLWYR

10 o'r cynghorion gorau

ar gyfer beth i'w wneud yn ystod Wythnos Ymddiriedolwyr

1. **Gweithiwch gydag elusennau eraill** - cysylltwch ag elusennau lleol eraill sydd efallai am gynnal digwyddiadau ar y cyd i naill ai ddiolch i'w hymddiriedolwyr neu ddenu darpar ymddiriedolwyr.
2. **Cysylltwch â'ch grŵp CSV** - i weld beth mae'ch grŵp Gwasanaeth Cymunedol Gwirfoddol efallai'n ei wneud ar gyfer yr Wythnos Ymddiriedolwyr ac a oes rhywbeth y gallwch chi ymuno ag ef.
3. **Gwahoddwch eich maer lleol** - gwahoddwch eich maer lleol/cyngorwyr lleol i ddod i gwrdd â'ch Bwrdd Ymddiriedolwyr a chlywed am ei waith ac ennyn diddordeb y cyfryngau lleol.
4. **Cynnal bore goffi** - gallech chi gynnal bore goffi i wahodd darpar ymddiriedolwyr i ymweld â'ch elusen a gweld eich gwaith.
5. **Cynnal digwyddiad 'gwib baru'** - gallech chi gynnal noson 'gwib baru' ar ffurf noson wib garu. Mae hwn yn gyfle i chi ac elusennau lleol eraill sy'n chwilio am ymddiriedolwyr gynnal digwyddiad i unrhyw un a hoffai fod yn ymddiriedolwr i ddod a chlywed mwy am eich elusennau. Bydd y darpar ymddiriedolwyr yn siarad â phob elusen am 5 munud ac yna'n mynd o gwmpas yr ystafell er mwyn cael cyfle i siarad â'r holl elusennau sydd yno.
6. **Anerchiadau i grwpiau o ddarpar ymddiriedolwyr ifanc** - siaradwch â cholegau lleol, prifysgolion neu grwpiau o bobl ifanc ynghylch sut y gallech chi ddenu pobl ifanc i fod yn ymddiriedolwyr eich elusen.
7. **Cynnal diwrnod agored** - gallech chi gynnal diwrnod agored i wahodd darpar ymddiriedolwyr i ymweld â'ch elusen a gweld eich gwaith. Cyflwynwch nhw i fuddiolwyr, staff a gwirfoddolwyr a cheisiwch ennyn diddordeb y cyfryngau lleol.
8. **Cynnal dathliad i'ch ymddiriedolwyr** - gallech chi gynnal noson dathlu gyda chinio/diodydd i ddiolch i'ch ymddiriedolwyr presennol am eu gwaith.
9. **Ysgrifennwch lythyr at eich papur lleol** - ysgrifennwch lythyr at eich papur lleol i ddathlu'r Wythnos Ymddiriedolwyr, gan ddiolch i'ch bwrdd ymddiriedolwyr yn gyhoeddus am ei holl waith caled a sôn am lwyddiannau eich elusen.
10. **Cynnal noson 'wobrwyo' hwyliog** - gallech chi gynnal noson 'wobrwyo' hwyliog lle y gallwch chi greu gwobrau tebyg i'r Oscars i'w cyflwyno i'ch ymddiriedolwyr i ddathlu llwyddiannau arbennig neu gydnabod sgiliau arbennig.

Peidiwch ag anghofio dweud wrthym am eich digwyddiad er mwyn i ni allu rhoi cyhoeddusrwydd iddo ar y wefan www.trusteesweek.org!

E-bostiwch ni yn: trusteesweek@charitycommission.gsi.gov.uk